# Cofnodion cryno - Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Gwener, 26 Chwefror 2016

Amser: 11.15 - 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://senedd.tv/cy/3564

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | David Melding AC (Cadeirydd)<br>William Graham AC (yn lle Paul Davies AC)<br>Jeff Cuthbert AC (yn lle Ann Jones AC)<br>Eluned Parrott AC |
| Tystion: | Carwyn Jones AC, Y Prif Weinidog<br>Owen Evans, Cyfarwyddwr, Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes, Llywodraeth Cymru<br>James Price, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Steve George (Clerc)<br>Kath Thomas (Dirprwy Glerc)<br>Graham Winter (Ymchwilydd)<br>Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Paul Davies, Jocelyn Davies ac Ann Jones.

Roedd William Graham yn dirprwyo ar ran Paul Davies a Jeff Cuthbert yn dirprwyo ar ran Ann Jones yn unol â Rheol Sefydlog 17.48.

## 2 Sesiwn Graffu ar Waith Gweinidogion - Adolygiad o Bynciau y Craffwyd Arnynt mewn Cyfarfodydd Blaenorol

Bu'r Pwyllgor yn holi'r Prif Weinidog ar bynciau a drafodwyd mewn cyfarfodydd blaenorol yn ystod y pedwerydd Cynulliad.

Cytunodd y Prif Weinidog i ysgrifennu at y Pwyllgor er mwyn rhoi rhagor o wybodaeth:

- yn cymharu cyfran yr ymgeiswyr ar gyfer penodiadau cyhoeddus o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol â chyfran y penodiadau gwirioneddol o'r grwpiau hyn;
- ynghylch effeithiolrwydd y dulliau a ddefnyddir i annog ceisiadau gan bobl yn y grwpiau hynny.

## 3 Papurau i'w nodi

Nodwyd y papurau.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer Eitem 5 ar yr agenda.

## 5 Trafod y dystiolaeth o'r Sesiwn Flaenorol

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd yn ystod y sesiwn graffu gynharach a chytunodd i ysgrifennu at y Prif Weinidog, yn nodi nifer o sylwadau ac argymhellion.